# ATODIAD 2

## POB ATEB I GWESTIWN 1:
## 'PA WAITH YMCHWIL I ADDYSG SY'N MYND RHAGDDO AR HYN O BRYD YNG NGHYMRU?'

"Dyfodol Llwyddiannus i Bawb" - yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ei gydlynu gan WISERD, a'i gyflawni gan yr holl ddarparwyr AGA yn 2018/19 • Gwaith ymchwil ar weithio mewn clystyrau yn Ne-ddwyrain Cymru (MMU) • Consortia (De-ddwyrain Cymru) wedi cwblhau gwaith ymchwil ar eu dulliau gweithio o ysgol i ysgol (Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd) • Ymchwil i grwpiau ystafell ddosbarth a'r effaith ar hunan-argraffiadau academaidd yn y blynyddoedd cynnar • Mae llawer o waith ymchwil yn cael ei wneud mewn pob math o gyd-destunau a gan ystod o bobl - ond efallai mai'r cwestiwn pwysig yw beth yw effaith hyn... • Ymchwil gan Brifysgol De Cymru i sefydlu gwaelodlin ar gyfer system AAA yng Nghymru - ar y cyd ag Arad Research • Ymchwil weithredu ar effaith rhywedd ar berfformiad ym maes mathemateg - Consortiwm Canolbarth y De • Prosiectau ymchwil bach ynghylch dysgu proffesiynol • Ffactorau sy'n effeithio ar allu plant i ddysgu: Astudiaeth gymharol rhwng Canada a Chymru. Ffocws: dwyieithrwydd, deuglosia, cysylltiad/gwahaniaeth rhwng polisi ac ymarfer, dylunio cwricwlwm • Prifysgol Caerdydd - dulliau llythrennedd amlieithog ar gyfer addysgu iaith • Ymchwil i amlieithrwydd mewn ysgolion yng Nghymru yw'r rhaglen Dyfodol Byd-eang • Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn ymchwilio i'r defnydd o addysgeg 'SCALE-UP' mewn prosesau AGA • Prifysgol Bangor - PhD Deinameg Iaith mewn Ysgolion • Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn cynnal arolygon staff ac arolygon disgyblion (blynyddoedd 6-11) yn flynyddol: rydym wedi cyrraedd trydedd flwyddyn y gwaith ymchwil sy'n edrych ar bob math o faterion. Er enghraifft, yn yr arolwg disgyblion rydym yn edrych ar ymddieithrio oddi wrth gyd-ddisgyblion, athrawon a'r ysgol, a'r rheswm am hynny. Mae'r arolwg staff yn rhoi sylw i newidiadau sy'n ymwneud â Chwricwlwm Cymru mewn ysgolion, ac ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu. Yn gweithio gyda'r Athro Mark Hatfield a Dr Jemma Hawkins, ill dau o Brifysgol Caerdydd. • Ymchwil ar roi'r Cyfnod Sylfaen ar waith - Prifysgol Caerdydd • Ysgol Uwchradd yng Nghaerdydd: Ymyriadau bach gan staff unigol fel rhan o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus sy'n cael ei yrru gan yr unigolyn. • Ffactorau sy'n effeithio ar gyflwyno'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol mewn ysgolion cynradd (Rhydychen). • GWE: amrywiaeth o brosiectau ymchwil agos at ymarfer ar y cyd â Phrifysgol Bangor a Phrifysgol Warwick, e.e. dyluniadau lled-arbrofol a hap dreialon wedi'u rheoli • Fel Ysgol Arloesi - Dysgu Proffesiynol, dwi'n gweithio gyda Cardiff Met i brofi'r Meysydd Dysgu a Phrofiad • Bryn Elian - yr ail don o brosiectau ymchwil amlddisgyblaethol sy'n cynnwys yr ysgol gyfan • Staff yn mynd ati'n annibynnol i gwblhau ymchwil ar lefel meistr ac ymchwil ar raddfa fach ynghylch darllen er mwynhad gyda'r Brifysgol Agored. Ysgol Gynradd Alway. • Ymchwil ôl-ddoethurol gan Brifysgol De Cymru sy'n ymchwilio i addysgeg gynhwysol ar gyfer disgyblion ag awtistiaeth mewn ysgolion prif ffrwd. • Metawybyddiaeth a dysgu. • Ymchwil weithredu ar effaith strategaethau metawybyddol ar ddisgyblion ym mlwyddyn 5 drwy resymu mathemategol. Ysgol Santes Fair, Casnewydd. • Ysgol Cynwyd Sant. O fy mhrofiad i, dydy'r gwaith ymchwil ddim wedi bod ar raddfa eang ar draws Cymru - mae wedi cael ei wneud mewn clystyrau bach mewn gwahanol sefydliadau, ac mewn prifysgolion yn bennaf. Fodd bynnag, ar nodyn personol, mae fy ysgol i wedi dechrau cymryd rhan mewn gwaith ymchwil dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ond ar raddfa fach. • Ymchwil ar ddull gweithio effeithiol ar sail clystyrau gyda'r Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg (De-ddwyrain Cymru) • Mae data gwaelodlin ynghylch proffil y cyfnod sylfaen yn cael ei gasglu ar hyd a lled Cymru. Byddai modd defnyddio hynny fel rhan o astudiaeth. Mae llawer o ddata arall a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ar gael ar wefan StatsCymru. • Defnyddio adnoddau addysgol mewn ysgolion yng Nghymru - CBAC • Consortiwm Canolbarth y De - Datblygu adnoddau gwerthuso ar-lein i gefnogi'r gwaith o werthuso ysgolion Hwb. • Model newydd ar gyfer Cymraeg Ail Iaith? - prosiect PhD a gwblhawyd yn ddiweddar yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe. Alex Lovell. • Astudiaeth gymharol Prifysgol Abertawe o arweinyddiaeth yn Ne-ddwyrain Asia. • Mae ymchwil weithredu ar raddfa fach yn digwydd mewn unrhyw ysgol ar hyd a lled Cymru. • Bangor-Ymchwil i WISERD wedi ei ariannu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Ymchwil ar sut mae Cymwyseddau Digidol yn cael eu gweithredu mewn ysgolion. • Mae Bryn Elian wedi creu llawlyfr i staff sy'n diffinio termau, er mwyn sicrhau bod pawb yn deall. • Ymwybyddiaeth o iaith ymysg athrawon dan hyfforddiant. • Ymchwil ar arferion gorau ar lefel Cyfnod Allweddol 4 ym maes gwyddoniaeth, mathemateg a Saesneg - Consortiwm Canolbarth y De. • Rydym ni ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd yn cynnal prosiect ymholi/dysgu proffesiynol gan Lywodraeth Cymru, ac yn gweithio'n benodol gydag ysgolion arloesi dysgu proffesiynol - iechyd a lles, a'r celfyddydau mynegiannol. • Naratif o ymddiriedaeth, atebolrwydd ac annibyniaeth (rhanddeiliaid ar bob lefel) - Prifysgol De Cymru. • Ein Rhanbarth ar Waith - ystyried y fantais wledig • Mae ein holl Dimau Uwch-Arweinwyr yn mynd i gynadleddau researcED er mwyn rhannu arferion da â'n staff. Yn y gorffennol, rydym wedi cynnal Astudiaeth o Wers gyda grwpiau o dri athro. Rydym bellach yn gwneud Ymchwil Weithredu - ond mae'r ansawdd yn amrywio gan ddibynnu ar brofiad. Mae aelodau unigol o staff yn gwneud gwaith ymchwil ar gyfer eu cymwysterau eu hunain, e.e. Graddau Meistr ac ati - Ysgol Uwchradd yng Nghaerdydd • Prifysgol Abertawe - effaith ysgolion pob oed • Grŵp ymchwil Cymuned Dysgu Proffesiynol yn ymchwilio i'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion Mwy Abl a Thalentog. - Ysgol Santes Fair, Casnewydd • Prifysgol Metropolitan Caerdydd: archwilio llythrennedd ym maes cerddoriaeth ar sail data a gasglwyd wrth i blant wneud cerddoriaeth mewn lleoliadau gwledig yn yr awyr agored. • Astudiaeth ôl-radd annibynnol gan athrawon. - Ysgol Uwchradd yng Nghaerdydd • Effeithiau rhaglen datblygiad proffesiynol Llythrennedd Corfforol gydag athrawon ysgolion cynradd - Prifysgol Metropolitan Caerdydd • Prifysgol yn cydweithio ag ysgolion partneriaeth i ddatblygu llythrennedd ymchwil. Prosiectau bwrsariaeth Ein Rhanbarth ar Waith. • Y Maendy, Casnewydd - Mae'r holl staff wedi gwneud targedau Dysgu Proffesiynol erbyn hyn, fel rhan o gylch Rheoli Perfformiad eleni. Mae'r staff wedi nodi meysydd o ddiddordeb y byddent yn dymuno edrych ymhellach arnynt - mae hyn wedi cael ei ddwyn ynghyd er mwyn creu Cymuned Dysgu Proffesiynol ar gyfer yr ysgol gyfan, ar sail elfennau penodol o'n Cynlluniau Datblygu Ysgol. • Mae AGAA yn gwneud gwaith ymchwil ar

arweinyddiaeth ar draws y byd. • Mae'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg wedi gwneud gwaith gydag arweinwyr ymchwil i lywio a chefnogi ymchwil weithredu. • Prifysgol Metropolitan Caerdydd: astudiaeth ar feddylfryd cyfrifiannol cydweithredol mewn dosbarthiadau cyfnod allweddol ar draws Cymru, sy'n cael eu cysylltu o bell gan ddefnyddio dyfeisiau aml-gyffwrdd. • Ysgol Uwchradd Tryfan. Dechrau sefydlu strwythur Dysgu Proffesiynol yn canolbwyntio ar ymchwil weithredu ymysg holl staff addysgu'r ysgol. • De-ddwyrain Cymru - dulliau gweithredu ar sail clwstwr ar gyfer Ymholiad Proffesiynol Cydweithredol Beirniadol gyda Phrifysgol Stirling. • CIEREI - Gwaith ymchwil gan Brifysgol Bangor yn gwerthuso'r broses o gyflwyno rhaglen llythrennedd ar gyfrifiaduron. • Ysgol Olchfa: ymchwil weithredu ar bolisi ymddygiad a chwricwlwm newydd. Pum ymchwilydd rhan-amser ac arweinydd ymchwil yn datblygu addysgeg. Adolygiad o'r Cwricwlwm iLearn, ac ymchwil weithredu yn dilyn hynny. Gweithio gydag SBLL, yn cefnogi ac yn cydlynu ymchwil weithredu. Ymchwil ar y cyd ar ddatrys problemau ym maes Mathemateg. • Dysgu'n annibynnol ar lefel ôl-radd. Gwaith ymchwil bach mewn ysgolion. • Mae ysgolion yn cael ceisiadau'n aml i ymuno ag arolygon ac ati, yn aml drwy'r pennaeth neu swyddogion arholiadau... Fel athro, dydw i ddim bob amser yn siŵr beth yw'r canlyniadau hyn nac i ble maen nhw'n mynd. • Tegwen Ellis - ar nodyn personol, rwyf wedi dechrau cymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil drwy'r Ddoethuriaeth Addysgol Broffesiynol yn Athrofa'r Drindod Dewi Sant (UWTSD). Mae hyn yn sicr wedi gwella fy nealltwriaeth, ac rwyf wedi gallu rhannu hyn â'm staff. • Ein Rhanbarth ar Waith - amrywiol brosiectau ymchwil agos at ymarfer ar lefel clwstwr. • Cymwysterau Cymru - holi athrawon a dysgwyr am eu teimladau a'u safbwyntiau am Asesiadau heb Arholiadau mewn 10 pwnc TGAU wedi'u diwygio yng Nghymru. • Cymuned Dysgu Proffesiynol - clwstwr Ymddiriedolaeth Aml-Academi (MAT). Gweithio gyda Phrifysgol Stirling • Mae myfyrwyr traethawd hir sy'n ymwneud â'r cwrs MA Addysg ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam yn gweithio ar ymchwil yn y gwaith ynghylch addysgeg therapiwtig, goruchwyliaeth nyrs practis, dysgu personol yng Nghyfnod Allweddol 3, Dyslecsia, ac Arweinyddiaeth mewn lleoliad Anghenion Dysgu Ychwanegol. • Rydym ni'n teimlo bod angen i ni wybod mwy am yr hyn mae pobl yn ei wneud - angen rhannu gwybodaeth yn amlach! • Enghreifftiau o brosiect Bryn Elian - ymchwil i effaith arddangosfeydd wal • Ymchwil i grwpiau yn yr ystafell ddosbarth a'r effaith ar hunan-argraffiadau academaidd yn y cyfnod sylfaen yng Nghymru. • Defnyddio dulliau chwarae gêm fel ffordd o ddatblygu disgyblion cadarn mewn ystafell ddosbarth Anawsterau Dysgu Cymedrol. V.Girton-Smith Ysgol Gynradd Cefn Cribwr, Pen-y-bont ar Ogwr. • Rhys Lloyd yn Ysgol Uwchradd Llanisien. Ar lefel yr ysgol gyfan, rydym yn cynnal 10 prosiect ymchwil weithredu bach ar hyn o bryd, a phob un o'r rheini'n rhai trawsgwricwlaidd o ran eu dyluniad. Ar lefel unigol, mae llawer o staff - gan gynnwys fi fy hun - yn ymwneud mwy â phrosiectau ymchwil, ac mae gan nifer ohonynt gysylltiad â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. • Ystyried effaith rhwydweithiau dysgu proffesiynol ar draws clwstwr, gyda chydweithwyr sy'n addysgu'r un grŵp oedran yn nodi elfennau blaenoriaeth cyffredin, fel dilyniant wrth ddylunio'r cwricwlwm ar gyfer blynyddoedd 5-8 (Hwlffordd). • Ysgol Uwchradd yng Nghaerdydd: Cynnwys theori a sylfaen dystiolaeth mewn rhaglen datblygu'r ysgol gyfan ar gyfer yr holl athrawon. • Prosiect PhD arall ar y gweill ynghylch Cymraeg Ail Iaith, gan Nia Mererid Parry yn Ysgol Addysg Prifysgol Bangor. • Ysgol Gynradd Dyfnant: ar hyn o bryd, rydym yn gwneud gwaith ymchwil ymysg ac ar y cyd ag ysgolion bwydo ar gyfer Olchfa. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r staff, ac yn cydweithio er mwyn rhannu arbenigedd ac arferion sy'n cael eu defnyddio/sy'n gweithio/sydd ddim yn gweithio ar hyn o bryd. Mae pob ysgol yn ymchwilio i elfen o angen yn eu hysgol. Mae ein hysgol ni wedi gwneud gwaith ymchwil i ymchwilio i ddatrys problemau ym maes mathemateg, er mwyn gwella sgiliau rhesymu yn y pen draw. Cafodd yr elfen hon ei nodi fel gwendid ar draws yr ysgol ac yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol. • Mae Prifysgol De Cymru yn ystyried sut mae anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hystyried wrth ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru - prosiect Dyfodol Llwyddiannus sy'n cael ei ariannu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru/WISERD. • Mae WISERD yn gwneud gwaith ymchwil ar bob math o faterion, gan gynnwys: astudiaeth carfan ar safbwyntiau disgyblion ysgol ar bob math o themâu; ymchwil ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd i Gymru a'r effaith bosibl ar blant o gefndiroedd mwy difreintiedig - mae'r rhain yn ymwneud â gwahanol themâu: ysgolion gwledig (Aber), dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (De Cymru), datblygu Maes Dysgu a Phrofiad - y Celfyddydau Mynegiannol (Prifysgol Metropolitan Caerdydd), Cymwyseddau Digidol (Bangor), ymwybyddiaeth ofalgar a Maes Dysgu a Phrofiad - Iechyd a Lles (Y Drindod Dewi Sant), datblygu arferion ysgolion (Prifysgol Caerdydd). • Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant - mae Lleisiau Bach yn cefnogi Plant sy'n Ymchwilwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac mewn grwpiau cymunedol sy'n helpu plant sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i gymryd rhan. Mae'r plant yn ymchwilio i lawer o ymholiadau ehangach yn ymwneud â hawliau dynol ac ymholiadau addysgol - yn cynnwys Oedran gweithio - er mwyn mynd ati i sicrhau newid ar y cyd. • Mae ymchwil ar lefel meistr a doethurol ar waith hefyd gydag athrawon ar raddfa lai. • Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru - Gwerthusiad o'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, Gwerthusiad o Ddysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, gwerthusiad o'r ffordd mae staff cefnogi ysgolion yn cael eu defnyddio, gwerthusiad o Gynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch, gwerthusiad o brawf cyfwerthedd AGA. • Enghraifft o Fryn Elian - cynnal a modelu ar gyfer ieithoedd a mathemateg. • NACE/Prifysgol Met Caerdydd yn gweithio ar waith ymchwil yn ymwneud â dysgwyr mwy abl a thalentog. • Mae gan glwstwr y Rhyl nifer sylweddol o brosiectau ymchwil ar waith, ar y cyd â Phrifysgol Bangor. • Amrywiaeth fawr rhwng ysgolion o ran ymateb i anghenion cyd-destun, ond yn aml iawn dydyn nhw ddim yn adeiladu ar waith ymchwil tebyg a wnaed eisoes. Does dim llawer o amser i wneud gwaith darllen, hyd yn oed gydag astudiaethau achos lleol Consortiwm Canolbarth y De, nac i chwilio am elfennau penodol. Mynd ati'n well i rannu uchafbwyntiau ar gyfryngau cymdeithasol o bosibl, gyda dolenni i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ymarferwyr addysgu. Mae angen defnyddio amrywiaeth ehangach o ffynonellau, nid dim ond rhai ar lefel y consortiwm. • Rydym yn ystyried effaith dysgu gweledol yn Ysgol Merllyn (Bagillt), Gogledd Cymru. • Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Yn ystyried sut mae ymwybyddiaeth ofalgar mewn gweithgareddau natur yn effeithio ar les plant, a'r ffordd maen nhw'n gweld byd natur. • Cyngor Celfyddydau Cymru: Mae'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cael ei werthuso'n annibynnol, ond gallai pob ysgol wneud ymchwil ar sail eu gwaith. Fodd bynnag, mae bwlch mewn sgiliau ar hyn o bryd sy'n eu rhwystro rhag gwneud hyn. • REAP tlodi ac addysg gwledig a chyrhaeddiad addysgol. • Rydym ni ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd wedi bod yn gwneud ymchwil weithredu ac ymyrryd gydag ysgolion cynradd ynghylch 'llythrennedd corfforol', sy'n gysylltiedig â gwaith ym maes Addysg Gorfforol ac Iechyd a Lles. Cafodd y prosiect PhD ei ariannu gan y Coleg Cymraeg. Cafodd yr ail Brosiect ei ariannu gan Chwaraeon Cymru. • Rydym yn defnyddio "GREAT Discussions" (Abertawe) yn ein hysgol • Prosiect wedi'i ariannu gan y Coleg Cymraeg ynghylch effaith codio cyfrifiadurol - o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd. • Ymchwil i addysg ar lefel Meistr gan Brifysgol De Cymru, a wneir gan fyfyrwyr Dysgu Proffesiynol. • Prifysgol De Cymru - Anghenion Dysgu Ychwanegol a Dyfodol Llwyddiannus • (Ymchwil bersonol - Cyngor Celfyddydau Cymru) Trafodaeth ymarferwyr creadigol â disgyblion, a sut mae hyn yn helpu disgyblion i ddysgu. • CIEREI - Mae Prifysgol Bangor yn ymchwilio i effeithiau ac ymarferoldeb ymyriadau ar gyfer rhwyddineb darllen mewn ysgolion cynradd • Miller Research - ymchwil, gwerthuso a gwasanaeth ymgynghori. Prosiectau cyfredol - ymchwil i'r hyn sy'n rhwystro ac yn sbarduno'r cynllun Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch, adolygiad o brosiect treialu rôl Rheolwyr Busnes ar gyfer Ysgolion, adolygiad gan gymheiriaid ar gyfer gwerthuso Diwygiadau Diamond, ymgynghoriad Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, adborth adroddiad dysgwyr ar gyfer asesiadau ar-lein. •

Mae ysgolion angen help gan ymchwilwyr i wella eu hyder. • Mae Consortiwm Canolbarth y De wedi gofyn i Ysgol Cynwyd Sant fod yn Hwb ymchwil, ac mae'r ysgol yn cydweithio ag Athrofa Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant - pwrpas hyn yw helpu i ddatblygu'r gweithgareddau ymholi proffesiynol a helpu i wella dysgu proffesiynol yn yr elfen hon, yn unol â'r Safonau Proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. • Metawybyddiaeth a hunanreoleiddio. • Archwilio sgema plant yn y Cyfnod Sylfaen. • Ymchwilio i wariant y Grant Datblygu Disgyblion a strategaethau a ddefnyddir mewn ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn ceisio 'cau'r bwlch'. Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De • Prifysgol Bangor - Defnyddio MAKATON mewn lleoliadau Dechrau'n Deg. • Ar hyn o bryd, mae ymchwil weithredu yn gynllun ar gyfer yr ysgol gyfan, lle mae'r holl athrawon yn cael eu hannog i wneud elfen o waith ymchwil fel rhan o'u datblygiad proffesiynol. • Prifysgol Bangor: dulliau addysgu dwyieithog; dulliau addysgu iaith. • Consortiwm Staff Canolog - arolwg blynyddol a phartneriaethau ymarfer ymchwil. • PhD Prifysgol De Cymru - yn ôl ymchwil a phortffolio. • CIEREI, Prifysgol Bangor: mynediad at y cwricwlwm i ddisgyblion L2 ag Anghenion Addysgol Arbennig. • Ysgol Uwchradd yng Nghaerdydd - ymchwil i effeithiolrwydd gwaith Andy Buck ar Arweinyddiaeth • Prifysgol Bangor - rhoi 'Cefnogaeth Weithgar (Active Support)' ar waith mewn ysgolion arbennig er mwyn cynyddu gallu disgyblion ôl-16 sydd ag anableddau dysgu i ddysgu sgiliau cymdeithasol a gweithredol - yn benodol, canolbwyntio ar sgiliau cymdeithasol sy'n ymwneud â'r gweithle. • Rydym yn gwerthuso effaith y cwricwlwm newydd (Abertawe) • Ymchwil ymwybyddiaeth newynau ieuenctid gydag ysgolion GWE. • Astudiaeth ansoddol ar ddisgyblion sy'n gwasanaethu ar gyngor ysgol. • Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Yn ystyried sut mae perfformio cerddoriaeth mewn lleoliadau gwledig yn yr awyr agored yn effeithio ar ddatblygiad ysbrydol plant yng Nghyfnod Allweddol 2. • Ysgol Cynwyd Sant - y cwestiwn strategol ar gyfer gweithgareddau ymholi eleni, sy'n rhan o'n Cynllun Gwella Ysgol, yw Egwyddor Addysgeg 6 (sef Cyd-destun Dilys) • Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd wedi sefydlu grŵp ymchwil sy'n canolbwyntio ar ymchwil gymhwysol dan arweiniad ymarferwyr yng nghyd-destun iechyd a lles. Mae'n rhoi sylw'n arbennig i waith ymchwil o safon uchel sy'n cael ei siapio gan a drwy'r gymuned addysg. I wneud hyn, bu'n gweithio gydag ysgolion i sefydlu diwylliannau sy'n cael eu llywio gan waith ymchwil. • Y rhaglen ARFer: newid cyd-destun arferion ieithyddol (LHC) a defnyddio mwy ar y Gymraeg mewn gweithleoedd dwyieithog. • Ysgol Bryn Elian - defnyddio technolegau digidol fel dull Addysgegol. • Prifysgol Abertawe - Llwybrau ôl-18 eraill ym myd addysg. Effaith Dechrau'n Deg ar ganlyniadau addysgol. • Prifysgol Bangor/Ysgol Brynelian - Datblygu sgiliau ysgrifennu dysgwyr sydd â dyslecsia. • Y Brifysgol Agored yng Nghymru - profiadau plant o ddysgu yng nghymoedd y De, yn ogystal â phrofiadau pontio • Addysgu myfyrwyr MA ar wahanol brosiectau - helpu disgyblion gydag anhwylderau yn y sbectrwm awtistig; mannau yn yr awyr agored... • Prifysgol Caerdydd - ystyried profiadau pobl ifanc mewn darpariaethau amgen (Unedau Cyfeirio Disgyblion) ac arferion/swyddogaethau staff • Astudiaeth dulliau cymysg ynghylch y Gymraeg fel ail iaith. • Deall y Cynllun Cymryd Rhan mewn prosesau Llywodraethu Ysgolion drwy Lleisiau Bach (Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant) • Cymwysterau Cymru - mae arolwg ar y gweill (bydd yn mynd yn weithredol ar 4ydd Rhagfyr 2018) o athrawon Mathemateg yng Nghymru er mwyn casglu safbwyntiau am ddylunio, cynnwys, hygyrchedd, gallu i reoli a sefyll arholiadau. Mae'n cynnwys TGAU Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd a Thystysgrif Lefel 2 mewn Mathemateg Ychwanegol. • Y ddeinameg ddwyieithog mewn gweithle dwyieithog: treialu'r Adnodd Arsylwi Deinameg Ddwyieithog (BilDOT). • Mae WISERD (Addysg) wedi paratoi cronfa ddata ar y rheini sy'n gwneud gwaith ymchwil - yn cynnwys addysgu ar sail ymchwil. • CIEREI, Prifysgol Bangor: sut gall ysgolion fesur cywirdeb gweithredu'r dulliau/rhaglenni maen nhw'n eu mabwysiadu? • Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion yn cael ei redeg gan DECIPHer, sef canolfan ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'n dwyn ynghyd yr holl ysgolion uwchradd prif ffrwd, llunwyr polisïau yn Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn gwella iechyd a lles pobl ifanc mewn ysgolion. Mae'n gwneud hyn drwy ddarparu data trylwyr, cynnal ymchwil berthnasol a chyflwyno'r dystiolaeth i'r system er mwyn llywio arferion. • Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth o ran ymyriadau effeithiol ar gyfer disgyblion â nam ar eu clyw, nam ar eu golwg neu nam ar fwy nag un o'r synhwyrau. • Gwerthuso effeithiolrwydd y cynllun mentora Cymraeg o ran defnyddio mwy ar y Gymraeg mewn gweithleoedd dwyieithog. • CIERIE, Prifysgol Bangor Ymchwil ar Raglen Ddarllen Ar-lein Headsprout, Sgiliau darllen cynnar / Rhaglen Darllen Cynnar Headsprout, Hap-dreial wedi'i Reoli ar raddfa fawr. • Gwaith efo Erasmus+ yn edrych ar addysgeg tramor. Er enghraifft, staff yn mynd i Wlad yr Iâ i edrych ar ddulliau dysgu y tu allan i'r dosbarth. • Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Mathemateg - wedi cynnal prosiectau ar hyd a lled Cymru, ac wedi cyflwyno mewn cynadleddau - astudiaethau ar ddal gafael, ymgysylltu a chydweithio. • Argraffiadau staff o'r cynllun mentora Cymraeg: astudiaeth ansoddol. • Ymchwil PhD ym Mhrifysgol Bangor. Datblygu clwstwr sy'n cael ei lywio gan dystiolaeth: archwiliad a gwerthusiad o ymyriadau mewn ysgolion. Gwella lles ac ymddygiad: datblygu cwricwlwm cymdeithasol ac emosiynol ar y cyd. • Estyn - 11 adroddiad sy'n canolbwyntio ar wahanol bynciau, gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol; iechyd a lles; cymunedau teithwyr. • CIEREI, Prifysgol Bangor: Archwilio arferion llythrennedd cyfredol ymysg plant sydd ddim yn siarad. • CIEREI, Prifysgol Bangor: Astudiaeth Ddarllen Ar-lein Gogledd Cymru (NorthWORTS). Sgiliau darllen cynnar / Rhaglen Darllen Cynnar Headsprout. Gwerthuso effaith cymorth i weithredu. • Astudiaeth ansoddol (arolwg) ar argraffiadau athrawon o ddisgyblion, a sut mae pobl ifanc yn ystyried y berthynas honno. • Gweithio mewn Addysg Uwch - helpu myfyrwyr MA gyda'r gwaith ymchwil ar gyfer eu traethodau hir, a myfyrwyr cynradd TAR gyda'u prosiectau ymchwil weithredu. Ar lefel bersonol, gwneud gwaith ymchwil ynghylch 'athrawon ar ddechrau eu gyrfa fel ymchwilwyr yn yr ystafell ddosbarth' ar gyfer PhD. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn seiliedig ar brofiad mentoriaid a myfyrwyr carfan 1 - Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol. • CIEREI, Prifysgol Bangor, Conwy NorthWORTS-Prosiect Cefnogi Rhieni: Hyfforddi'r Hyfforddwr - Rhieni'n helpu gyda darllen ychwanegol / Rhaglen Darllen Cynnar Headsprout. • Prifysgol De Cymru - plant yn cymryd rhan mewn gwaith ymchwil, gwreiddio hawliau plant mewn ymarfer, hunaniaeth genedlaethol plant a beth mae'n ei olygu i fod yn Gymro neu'n Gymraes • Fel athrawon, rydym ni'n gwneud ymchwil weithredu drwy'r amser... • Rydym ni ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd yn gwneud ymchwil astudiaeth achos gydag ein myfyrwyr Meistr ynghylch y cwricwlwm newydd yng Nghymru. Rydym hefyd wedi sefydlu grŵp ymchwil addysg gorfforol a rhwydwaith o ymarferwyr, ac rydym yn gweithio gyda nhw ar rai prosiectau peilot i wella diwylliant ymchwil. • CIEREI Prifysgol Bangor, gwerthusiad o SuccessMaker: Rhaglen ddarllen ar-lein. 1 ysgol/40 disgybl. Un ymyriad ac un grŵp rheoli wedi'i baru. Cyn ac ar ôl, ddim ar hap. • CIEREI, Prifysgol Bangor: Gwerthusiad o raglenni herio a chefnogi ysgolion uwchradd GwE - Holl ysgolion uwchradd GwE. Cyfranogwyr ar y rhaglen arweinyddiaeth ganol. Dulliau cymysg. • Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL)-Mae Databank yn fanc data sy'n cynnwys data dienw am y boblogaeth yng Nghymru. Mae'n cael ei gynnal gan Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe ac mae'n cynnwys, ymysg setiau data eraill, cyfuniad o ddata addysg sy'n cynnwys Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, canlyniadau arholiadau a Chyfnodau Allweddol, Presenoldeb ac Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Mae'r data'n cael ei ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth eang o brosiectau. • Mae rhywfaint o waith yn mynd rhagddo drwy'r rhaglen Dyfodol Llwyddiannus ynghylch y ffordd mae ysgolion a darparwyr AGA yn rhoi sylw i'r newidiadau yn sgil adolygiadau Donaldson/Furlong. • CIEREI, Prifysgol Bangor: Adolygiad cyflym o'r maes Gwyddoniaeth (PISA): Gwerthuso dulliau dysgu mewn ysgolion â chanlyniadau PISA uwch. 6 ysgol uwchradd yn Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy, Dulliau cymysg. • CIEREI, Prifysgol Bangor, Astudiaeth Ddarllen

Ar-lein Gogledd Cymru - Prosiect Gweithredu Trawsranbarthol (NorthWORTS-TRIP). Sgiliau darllen cynnar / Rhaglen Darllen Cynnar Headsprout. Gweithredu'n drawsranbarthol; 25 ysgol gynradd; un grŵp cyn ac ar ôl, ddim ar hap. • CIEREI, Prifysgol Bangor, SAFMEDS-GwE. Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol - ysgoloriaeth ymchwil PhD. 'Gwerthuso ymyriad rhifedd SAFMEDS i wella canlyniadau i ddisgyblion mewn perygl'. Gwerthuso effaith cymorth i weithredu. 65 ysgol gynradd; 650 o ddisgyblion; cynllun clwstwr ar hap wedi'i reoli; 30 ysgol yn cael cymorth safonol ar hap; 30 yn cael cymorth i weithredu ar hap. • CIEREI: Economeg Addysg ym myd Addysg. Prifysgol Bangor. • CIEREI, Prifysgol Bangor, Ysgoloriaeth Ymchwil PhD KESS-GwE, 'Defnyddio economeg Addysg i werthuso effaith rhaglenni gwelliannau strategol mewn ysgolion'. Defnyddio economeg Addysg i werthuso effaith rhaglenni rhifedd a llythrennedd strategol. I'w gadarnhau ym mis Hydref 2017. Dulliau cymysg. • CIEREI, Prifysgol Bangor, iWaB-RLC. Prosiect PhD ar Glystyrau. 'Gwella Lles ac Ymddygiad yng Nghymuned Ddysgu y Rhyl'. Gwella Lles ac Ymddygiad yng Nghymuned Ddysgu y Rhyl; 10 ysgol; dulliau cymysg gan gynnwys astudiaeth â dyluniad ar hap wedi'i reoli. • CIEREI, Prifysgol Bangor, Prosiect PhD iStER-GwE. (Improving Standards Through Effective Revision). Gwerthuso effaith strategaethau adolygu ar sail tystiolaeth yng Nghyfnod Allweddol 4. Gwerthuso effaith cymorth i weithredu. Adolygiad cyflym o strategaethau adolygu ar sail tystiolaeth ac arolwg athrawon-disgyblion, a ddilynir gan astudiaeth arbrofol o strategaethau addawol. • CIEREI, Prifysgol Bangor, Prosiect Lles a Pharodrwydd i Ddysgu (R4L). Gwella Lles ac Ymddygiad drwy well strategaethau i ddatblygu parodrwydd dysgwyr i ddysgu. Saith ysgol yn 2018-2019; pum ysgol arall erbyn 2021. Dulliau cymysg, gyda thair ysgol a reolir yn cael eu cynnwys i ddarparu data cymharol. • CIEREI, Prifysgol Bangor, SAFMEDS-GwE (Say All Fast Minute Every Day Shuffled) - prosiect i wella sgiliau sylfaenol disgyblion mewn mathemateg, gan ddefnyddio strategaeth addysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. • Bangor - dulliau rhesymu'n fathemategol yn ystod y blynyddoedd cynnar ac yn hŷn, ac adolygiad systematig o ddulliau gweithredu, gan gynnwys meddylfryd cyfrifiannol. • Mae WISERD (Addysg) yn bwrw ymlaen â'u hastudiaethau carfan hydredol - mae hyn yn ffynhonnell ddata ddefnyddiol ar gyfer cwestiynu, yn enwedig yng nghyd-destun gweithredu'r newidiadau ar draws y cyfnod dan sylw. • Ysgol Gynradd NC, Cwmbrân: Mae'r holl staff addysgu yn yr ysgol yn gwneud Ymchwil Addysgol Gydweithredol, ac mae hynny'n cael ei gynllunio'n systematig fel rhan o amser cyfarfodydd staff, datblygiad proffesiynol, dealltwriaeth o'r disgwyliadau newydd mewn safonau addysgu, cynllun datblygu'r ysgol yn y tymor byr a'r tymor hir, a pherfformiad disgyblion o ran lles, sgiliau a pherfformiad. Fe ddechreuodd hyn fel rhan o brosiect cydweithredol gyda'r brifysgol yng Nghasnewydd, ond mae'n teimlo fel ymgyrch unigol erbyn hyn gan nad oes trefn systemig ar gyfer cadw mewn cysylltiad â'r brifysgol na gydag unrhyw ysgolion eraill. Byddem wir yn gwerthfawrogi cysylltiadau agosach â'r brifysgol er mwyn cael cymorth i greu moeseg/methodoleg ymchwil gadarn ac ati, ond rydym yn sylweddoli na all y brifysgol fodloni anghenion ysgolion...Byddai hyn yn llwyfan gwerthfawr iawn er mwyn sbarduno'r broses o ymgysylltu ag ysgolion. Mae lefelau hyder y staff sy'n ystyried eu hunain yn ymchwilwyr yn isel iawn. • Ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, rydym wedi meddwl yn ofalus am strategaeth sy'n croesawu/adlewyrchu egwyddorion Taoaeth er mwyn datblygu ymchwil ansoddol a meintiol sydd wedi'i chynllunio'n dda ac sy'n seiliedig ar theori... Mae'n hollbwysig ein bod yn meddwl am y problemau a'r cwestiynau rydym yn eu hystyried.